| **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & YNYS MÔN (2011 – 2026)** | |
|---|---|
| **ARCHWILIAD CYHOEDDUS:**<br>**Sesiwn Gwrandawiad 5 – Economi – Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth** | CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |

**<u>Pwynt Gweithredu 5 (S5/PG4) – Tir Cyflogaeth – Ardaloedd Gwledig</u>**

**Darparu papur i egluro sut mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer tir cyflogaeth yn ardaloedd gwledig, gan gyfeirio yn benodol at ardal Meirionnydd, Gwynedd.**

**<u>Ymateb y Cynghorau:</u>**

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae Gwynedd yn sir ddaearyddol eang, patrwm datblygu gwasgaredig, gyda nodweddion ei heconomi yn amrywio rhwng, ac o fewn, ei hardaloedd. Yn draddodiadol oherwydd natur wledig ardaloedd o fewn Gwynedd (Meirionnydd a Dwyfor) mae yna llai o gyfleoedd am swyddi ar gael yno o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Ngwynedd, sef yr ardaloedd mwy poblog. Er mwyn ceisio goresgyn a mynd i'r afael a'r broblem yma mae yna nifer o gynlluniau a strategaethau ar waith gan y Cyngor a phartneriaid.

1.2 Er bod yna ofyn i'r papur yma ganolbwyntio'n benodol ar ardal Meirionnydd, mae yna sylw hefyd yn cael ei roddi i ardal Dwyfor a hynny'n benodol oherwydd datblygiadau diweddar gan y Cyngor er mwyn ceisio goresgyn y diffygion o ran cyfleoedd gyflogaeth sydd o fewn yr ardal.

## 2.0 Gweledigaeth Cyflogaeth - Meirionnydd

2.1 Mae Pennod 3 y Cynllun Adnau yn cyfeirio at Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd ac at Gynllun Cyflogaeth Meirionnydd. Rhoddodd yr Astudiaeth Tir Cyflogaeth (DC004) sylw iddynt hefyd wrth adnabod beth fyddai'r gofynion o ran tir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Sefydlwyd Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd gan Gyngor Gwynedd yn 2010 fel un o'r prosiectau strategol i wireddu'r Cynllun Strategol (2013 – 2017). Ei bwrpas ydi creu/hwyluso swyddi newydd o fewn yr ardal, sy'n cynnwys nifer o aneddleoedd o fewn ardal Cynllun Datblygu Lleol Eryri (2007 – 2022). Gwnaethpwyd y penderfyniad i baratoi'r strategaeth hyn yn wyneb yr her a fyddai'n gysylltiedig hefo creu cyfleoedd gyflogaeth yn yr ardal yn dilyn cwblhau gwedd gyntaf y broses o ddadgomsiynu safle Atomfa Trawsfynydd. Yn anochel mae dadgomisiynu safle'r atomfa wedi bod yn ergyd i economi'r ardal ac mae'r dirwasgiad yn yr economi a'r toriadau yn y sector cyhoeddus wedi cyfrannu tuag at yr ergyd hynny.

2.2 Pwrpas Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd oedd cynnig ymateb cynhwysfawr a chydlynol i anghenion yr ardal heddiw ac ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cynllun yn edrych ar raddfa'r her economaidd sydd ym Meirionnydd ac ar y cynlluniau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i greu sylfeini ar gyfer cyflogaeth y dyfodol ac i sicrhau economi blaengar, bywiog a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith o ansawdd uchel. Bellach fe ystyrir fod ymdrechion y strategaeth wedi cychwyn dwyn ffrwyth.

2.3 Yn 2012 fe ddynodwyd Ardal Parth Menter Eryri. Mae'r dynodiad yma'n cymell buddsoddiad ar y safle ynghyd a denu cwmnïau newydd a chreu swyddi. Mae safle atomfa Trawsfynydd yn rhan o Barth Menter Eryri a'r bwriad yw canolbwyntio ar ymchwilio i gyfleoedd sydd yn gysylltiedig â'r sectorau technoleg gwybodaeth, ynni a'r amgylchedd. Ynghyd a safle Trawsfynydd mae safle'r cyn maes awyr y weinyddiaeth amddiffyn yn Llanbedr hefyd wedi ei gynnwys o fewn ardal Parth Menter Eryri. Wedi'i lleoli ar benrhyn arfordirol, ei nodwedd neilltuol yw'r awyrofod ar wahân: mae'n unigryw yn y DU a'r cyntaf o'i fath yn Ewrop, ac mae'n galluogi i weithredwyr sifil a milwrol gael mynediad ar yr un pryd i arbrofion rheolaidd ar Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS). Gyda buddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau o'r radd flaenaf - a mwy ar y gweill - mae'r safle'n cynnig datrysiad parod i gwsmeriaid ar ffurf amgylchedd gweithredu newydd ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell sy'n cyfuno seilwaith maes awyr gyda rheoli awyrofod.

## 3.0 Gweledigaeth Cyflogaeth- Dwyfor

3.1 Yng Nghynllun Strategol 2013-2017 Cyngor Gwynedd roedd yna ymrwymiad i sefydlu Cynllun Cyflogaeth i ardal Llyn ac Eifionydd. Mewn canlyniad i'r ymrwymiad yma ac yn dilyn trafodaeth ac ymgynghori gyda budd-ddeiliad allweddol yn yr ardal leol fe gynhyrchwyd Cynllun Cyflogaeth Llyn ac Eifionydd. Mabwysiadwyd y Cynllun gan y Cyngor yn ystod Mehefin 2016 (<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=1827&ver=4&> (Eitem 6)). Nod y Cynllun yw annog cydweithio gyda phartneriaid i adeiladu ar gryfderau Llyn ac Eifionydd - ei hadnoddau naturiol, cynnyrch, treftadaeth, ei thalentau, ei hunaniaeth a'r iaith Gymraeg - er mwyn cynyddu cyflogaeth, mentergarwch a swyddi gwerth uchel ar draws yr ardal, manteisio ar gyfleodd i fusnesau lleol dyfu, a chreu amodau i bobl ifanc aros neu ddychwelyd i'r ardal i fyw a gweithio. Mae ffocws ar sicrhau fod isadeiledd priodol yn ei le, gan gynnwys cefnogaeth TG angenrheidiol ac mae darpariaeth band eang cyflym yn hanfodol.

3.2 Mae'n gam angenrheidiol ymlaen i'r ardal a bwriedir iddo ddarparu sail i'r dyfodol wrth gynllunio i gynnal a chreu gwaith yn Nwyfor. Bydd y Cynllun hefyd yn gymorth i gyflogwyr Llyn ac Eifionydd ac i'r rhai sydd yn ystyried sefydlu menter yn yr ardal gan ei fod yn crynhoi amgylchiadau'r economi ac yn amlygu meysydd sydd yn cynnig cyfle.

3.3 Mae'r Cyngor yn cydweithio ar y cyd ac ystod o bartneriaid o fewn y sector cyhoeddus - ynghyd a chyflogwyr busnes lleol - wrth ymyrryd i ddatblygu'r economi

leol ac ymdrechu i sicrhau bod buddsoddiad i'r ardal yn parhau. Yn hyn o beth, mae sicrhau fod agenda cytûn gyda chefnogaeth gynhwysfawr yn allweddol.

## 4.0 Safbwynt y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

4.1 Un o brif amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yw annog datblygu economaidd, mentergarwch a chreu cyfleoedd gyflogaeth. Yng nghyd-destun yr economi wledig mae twf ac arall gyfeirio ar raddfa briodol sydd yn parchu'r ardal a'i thirwedd yn cael ei hybu. Er mwyn cyfarch hynny mae datblygiad yn cael ei dywys i safleoedd cyflogaeth bresennol, ail-ddefnyddio adeiladau presennol ac arallgyfeirio amaethyddol.

**4.2** Mae'r safleoedd canlynol wedi cael ei gwarchod/dynodi ym Mholisi CYF 1 ar gyfer defnydd cyflogaeth yn ardal Dwyfor a Meirionnydd:-

| Ardal | Statws | Safle | Arwynebedd Safle |
|---|---|---|---|
| **Dwyfor** | Dynodiad | Ger gorsaf betrol Y Ffor | 1.7 |
| | Prif Safleoedd | Adwy'r Hafan, Pwllheli | 4 |
| | | Parc Busnes Porthmadog | 13.5 |
| | Eilradd | Stad Ddiwydiannol Nefyn | 1.7 |
| | | Stad Ddiwydiannol y Ffor | 2.8 |
| | | Parc Amaeth Llanystumdwy | 6.6 |
| | | Wynstay farmers, Rhosfawr | 4.9 |
| | | **Cyfanswm** | 32.7ha |
| **Meirionnydd** | Prif Safleoedd | Stad Pendre, Tywyn | 7.9 |
| | Eilydd | Parc Busnes Penrhyndeudraeth | 11.5 |
| | | Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog | 7.4 |
| | | Cyn safle ysbyty Bron y Garth, Penrhyndeudraeth | 1.6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Griffin, Penrhyndeudraeth | 4 |
| | | **Cyfanswm** | 32.4ha |

4.2 Wrth ystyried y cyfanswm o dir cyflogaeth sydd yn cael ei warchod ym Meirionnydd fe ddylid cadw mewn cof fod rhan sylweddol o'r boblogaeth yn byw o fewn Ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Serch y ffaith fod Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri ddim yn dynodi/gwarchod safleoedd cyflogaeth benodol mae yna bolisïau sydd yn gwarchod defnyddiau cyflogaeth bresennol ac yn atal defnyddiau amgen arnynt (Pennod 6 - Yr Economi Wledig <http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0004/764455/CDLl-Terfynol-6.1.12.pdf>).

4.3 Ym mhapur Testun 5A mae yna ystyriaeth yn cael ei roddi i'r cyfleusterau sydd ar gael o fewn y canolfannau a'r statws i'r ganolfan hynny yn sgil y cyfleusterau hynny. Rhan o'r ystyriaeth o ran y ddarpariaeth o gyfleusterau oedd y cyfleoedd gyflogaeth. Aseswyd y cyfleoedd gyflogaeth a oedd ar gael o fewn pob anheddle, boed hynny er enghraifft yn gyfleon mewn gwasanaethau megis siopa, ysgolion, canolfannau hamdden, swyddfeydd ynghyd a'r cyfleoedd a fyddai'n deillio o'r safleoedd cyflogaeth ddynodedig benodol. Roedd y sgôr a dderbyniwyd yr anheddle o ran y cyfleoedd gyflogaeth yn seiliedig ar lefel y ddarpariaeth oedd ar gael.

4.4 Mae'r papur yma eisoes wedi crybwyll natur wledig ardal Dwyfor a Meirionnydd a'r ddibyniaeth gan hynny ar y sector twristiaeth ac amaethyddol. Mae yna bolisïau o fewn y Cynllun sydd yn hybu'r sectorau yma gan gynnwys arallgyfeirio gwledig megis CYF5 - Ail ddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig neu uned breswyl ar gyfer defnydd busnes neu adeiladau newydd ar gyfer busnes/diwydiant, PS11 - Yr Economi Ymwelwyr, a MAN6 - Manwerthu yng Nghefn Gwlad.

4.5 Mae'r map yn atodiad 1 yn dangos y cyfleoedd gyflogaeth sydd ar gael ar gyfer yr ardaloedd dan sylw ynghyd a dangos y cysylltiadau a chyfleoedd yng nghyd-destun yr ardal ehangach.

## 5.0 Casgliadau


5.1 Yn sgil cyfyngiadau ffisegol, hynny yw topograffi a bygythiadau llifogydd sydd yn gysylltiedig hefo rhai o brif ganolfannau Dwyfor a Meirionnydd mae yna gyfyngiadau amlwg o ran canfod tir cyflogaeth addas. Mae gan ganolfannau ym Meirionnydd a Dwyfor gysylltiadau ffyrdd a rheilffordd dda gyda rhain o brif ganolfannau gwaith yr ardal ehangach, h.y. Bangor, Llandudno, Wrecsam, Aberystwyth er enghraifft.

5.2 Yn ogystal mae'r ardaloedd hyn yn nirweddol sensitif ac yn ardaloedd gwledig eu naws, chan hynny ni fyddai datblygiadau diwydiannol mawr yn cyd-fynd a'r dirwedd na chwaith mae'n debyg yn cyd-fynd a'r galw lleol. Yn draddodiadol mae'r galw o fewn yr ardaloedd hyn wedi bod ar gyfer unedau llai ar gyfer defnydd cynhyrchu (ar raddfa fach), crefftwyr, diwydiannau ysgafn (saer, trydanwyr ayyb). Mae'r ardal hefyd yn boblogaidd o ran y sector dwristiaeth sydd yn cynnig cyfleoedd gyflogaeth amgen ar gyfer yr ardal.

5.3 Pwysleisir fod yna gynlluniau a strategaethau ar waith gan y Cyngor er mwyn ceisio goresgyn y diffyg cyfleoedd gyflogaeth yn yr ardal. Mae strategaeth y Cyngor yn canolbwyntio ar gynnal a thyfu busnesau lleol cynhenid gan adeiladu ar gryfderau'r ardal. Ymhellach mae'r dynodiad Parth Menter Eryri yn debygol o arwain at gyfleoedd gyflogaeth o fri a all drawsnewid yr economi leol.

5.4 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gan hynny yn gyson hefo'r strategaethau hyn drwy warchod safleoedd cyflogaeth gyfredol. Mae'r safleoedd hyn yn darparu ar gyfer galw'r boblogaeth gynhenid, o fewn cyrraedd rhesymol y cymunedau gwledig ac yn darparu cyfleoedd i gynnal y twf a ragwelir gan yr Arolwg Tir Cyflogaeth. Ymhellach mae'r Cynllun yn cynnwys polisïau meini prawf sydd yn hyrwyddo'r math o dwf sydd yn cael ei annog gan Strategaeth y Cyngor a Chynlluniau Cyflogaeth Dwyfor a Meirionnydd.

## Atodiad 1




**Cyfloeon Cyflogaeth / Employment Opportunities**

- Canolfan Cyflogaeth / Employment Centre
- Dynodiadau Cyflogaeth yn Dwyfor a Meirionnydd / Employment Allocations in Dwyfor and Meirionnydd
- Canolfan Lleol (heb ddynodiad cyflogaeth) / Local Centre (without an employment designation)
- Parth Menter Eryri / Snowdonia Enterprise Zone

**Ardal / District**

- Meirionnydd
- Dwyfor
- Parc Cenedlaethol Eryri/Snowdonia National Park

y Goron / Crown Copyright
nedd - 100023387